YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] MEDI, 1873. [Rhif 7.

Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—Paul,

YMCHWYDD YR IORDDONEN.

PREGETH GAN GEORGE DAWSON, M.A., BIRMINGHAM.

[Darllener Josua iii, Jeremiah xii.]

"Pa fodd y gwnai yn ymchwydd yr Iorddonen?"—Jeremiah xii. 5.

Ni wnelem ond ail-adrodd hen brofiadau pe cymmerem mewn llaw i ddweyd sut mae y meddyliau a awgrymir gan yr afon redegog wedi bod erioed yn anwyl i galon y dyn prudd ac i enaid y dyn doeth; oblegyd mae rhediad yr afon wedi bod erioed fel rhediad bywydau dynion. Trwy y maesydd tawel, heibio i ddinasoedd mawrion a gwastadeddau eang, ac yn y diwedd trwy lawer o rwystrau a chyfnewidiadau i'r môr mawr: felly mae yr afon yn rhedeg—yn arwydd parhaol o'r bywyd dynol. Ac o holl afonydd y ddaear, yr anwylaf i feddyliau dynion yw afon enwog yr Iorddonen. Nid yw yn anwyl o herwydd unrhyw harddwch perthynol iddi hi ei hun, oblegyd nid oes ynddi ryw lawer o brydferthwch i ddynion ymhyfrydu ynddo; ni hwyliodd llong erioed ar ei gwyneb, ac nid yw o un gwerth na phwysigrwydd yn ngorchwylion masnachol y byd. Mae yn rhedeg trwy olygfeydd anial, ac yna yn ymgolli yn y Môr Marw; a phe byddai yn ddim ond afon yn unig, heb gael ei hanrhydeddu mewn hanes, ac heb unrhyw berthynas gyssegredig â dyn, gallesid ei chyfrif yn un o'r rhai lleiaf. Y mae afonydd mawrion ydynt yn llifo gyda chyflawnder o ddyfroedd trwy olygfeydd swynol; ond y mae hefyd afonydd, er yn brin o brydferthwch, ydynt yn fwy gogoneddus nâ hwy. Feallai nad ymddengys dim yn

swynol ynddi i olygon y masnachwr, yr hwn ni wêl ryw brydferthwch mawr yn y *Rhine*, oblegyd nad yw llongau marsiandwyr yn gwau trwy eu gilydd ar ei gwyneb. Cyll yr afonydd teg eu hawddgarwch yn ngolwg y rhai amddifad o chwaeth i werthfawrogi eu hanes, a'r rhai ni wyddant ddim am y gogoniant a berthyn iddynt o herwydd y gweithredoedd a wnaed ar eu glanau. Ond mae yr afon yma, na welodd long erioed ar ei dyfroedd, ac a gyfranodd mor ychydig at gynhaliaeth dyn, yn anwyl i ddynion o herwydd ei hanes. Gadewch i'r rhai ydynt yn addoli maint, a'r rhai a feddyliant mai maint sydd yn cyfansoddi prydferthwch, gadewch iddynt ymffrostio yn afonydd mawrion y gorllewin, ag mae eu gogoniant heb ddyfod etto. Mae ganddynt gyfoeth o ddwfr yn wir, ond cyfoeth o ddwfr yn unig yw. Ond am y cyfoeth uwch sydd yn deilliaw o hanes cyssegredig, pa afon yn y byd ellir ei chymharu a'r Iorddonen? Fe gafodd traed eu golchi yn yr Iorddonen a ddylent ei gwneyd am byth yn ogoneddus; bedyddiwyd un yn yr Iorddonen, ag y dylai ei goffadwriaeth ei gwneyd hi byth yn gyssegredig, Pwy wrth edrych ar yr afonig fechan nad yw yn meddwl am bedair mil blynyddoedd ei hanes? Drosti y croesodd Jacob gyda'i ffon, tra yr oedd ei ffrwd yn rhedeg yn isel. Wrth adrodd yr amgylchiad ar ol hyny mae yn dweyd, "A'm ffon y daethum dros yr Iorddonen, ac yn awr yr ydwyf yn ddwy fintai." Yr oedd yr hen batriarch crwydrol erbyn hyn wedi dyfod yn dad i genedl fawr. Ar y dechreu darllenais i chwi hanes yr Iuddewon yn myned drosti. Wrth yr Iorddonen yr arosai Dafydd ac y canai ei Salmau; ar ei glanau y preswyliai Elias;—dyn mawr a symmudai yn ddifrifol a goruchel mewn cyfnod difrifol. Ni fyddai dweyd hanes yr Iorddonen ond ail-adrodd hen eiriau melus yr Ysgrythyr o'u dechreu i'w diwedd. Yno y safai Ioan Fedyddiwr i fedyddio y Crist. Ac oddiar hyny y mae yr afon wedi ei throsglwyddo yn drysor cyssegredig i'r Eglwys Gristionogol am byth. Mae hi, yn nghyda'r lleoedd bychain ar ei glan, wedi rhoddi enwau i'n capeli bychain; ac mae hyn, yn lle bod yn beth i'w wawdio, yn beth i'w ganmawl, oblegyd mae yn rhaid fod y serch a osodir allan yn y fath fodd wedi gwreiddio yn isel i lawr yn nyfnderoedd calon y genedl. Mae rhai rhieni yn Lloegr wedi bedyddio eu plant yn nwfr yr Iorddonen; ac mae rhywbeth yn swynol yn yr ofergoeliaeth; oblegyd nid yw dyn bob amser yn greadur darostyngedig i reswm, ond mae yn greadur o dan lywodraeth serchiadau, ac nid yw ymofyn dwfr o'r Iorddonen er mwyn bedyddio plentyn, ddim ond yn dangos mor ddwfn mae serch at yr afon yn gorwedd yn nghalonau y bobl. Mae'r ofergoeliaeth swynol hono yn aros, oblegyd nid yw y galon yn cyfnewid—nid yw ei serchiadau byth yn marw.

Mae yr Iorddonen yn gwasanaethu mewn barddoniaeth fel arwydd o'r mynediad i'r bywyd gwell. Yr ydym yn siarad am fyned dros afon yr Iorddonen—afon marwolaeth—yn gymhwys fel ag ydym yn dweyd "yr ochr draw i'r dwfr," gan feddwl ein bod yn gadael ein gwlad anwyl ein hunain am ryw le yn mhell draw mewn addewid. Yr Iorddonen oedd y llinell fechan arianaidd a wahanai Canaan oddiwrth y byd oddiallan; ac yr oedd yr Iuddew yn ei gaethiwed yn edrych arni fel yn

cyfryngu rhyngddo â dinas ei serch a'i ddymuniad, tra y preswyliai mewn dinas lle nad oedd llawer o fwynhad na dedwyddwch iddo. Pa ryfeddod fod Cristionogion yn galw marwolaeth yn Iorddonen, ac yn llefaru am eu gwlad sanctaidd fel Canaan. Mae myned dros yr Iorddonen wedi bod yn hir yn ddiareb am farwolaeth; ac mae maesydd Canaan, yn llifeirio o laeth a mel, yn arwydd felus o orphwysfa dawel y Cristion. Ac y mae Watts, yr hwn, er ei holl bethau bychain, a safai ambell waith ar ben Pisgah, ac a welai wlad yr addewid o'i uchelfanau, wedi gosod allan y syniad mewn hymn ag sydd wedi cyffwrdd â theimlad llawer calon,—

"Fel Moses gynt, pe gallem ni
Gael gwel'd y wlad addewaist Ti,"

pwy wyr nad allasem fyned trwy yr afon yn droedsych fel yr Iuddewon gynt? Mae y defnydd a wneir o'r afon yn llyfr Jeremiah, wrth gwrs, yn eithriadol. Yr oedd Jeremiah yn brophwyd yn yr ystyr Ysgrythyrol—nid yn wneuthurwr almanac—yn brophwyd y tywydd. Prophwyd, yn y wir ystyr, yw y dyn i'r hwn mae Duw wedi rhoddi y gallu i weled nid yn unig y dyfodol, ond y dyfodol trwy y presenol. Yr oedd Jeremiah yn ddyn a chalon ddwfn ganddo, ac o herwydd hyny yn ddyn prudd; yr oedd yn fardd, ac o ganlyniad yn llawn teimlad; yr oedd yn ddyn uniawn, ac o ganlyniad yn llym yn erbyn llygredigaethau ei oes, ac edrychai ar wrthgiliad ei bobl gyda thristwch calon. Wrth edrych arnynt ac ystyried mai yr anwir a'r anffyddloniaid oeddent yn llanw palasau y cyfoethocaf yn gystal a bythod y tlawd, mae yn anobeithio. Nid oedd dim ond esgeulusdod yn ffynu, ac ymddangosai offeiriaid yr Arglwydd fel wedi colli eu ffydd. Yr oedd presenoldeb Duw iddynt fel seren wibiog, nad ellid cyfrif am ei hymddangosiad—yn dyfod ambell waith yn ddisymwth gyda llewyrch goleuni annghredddol, ac yna yn cilio o'u golwg i'r tywyllwch eithaf. Felly yr oedd calon y prophwyd yn dechreu ymollwng, ac yr oedd yn dechreu teimlo yr anobaith hwnw ag mae gwroniaid yn unig yn gwybod am dano, a'r hwn sydd yn dyfod i ran y dewraf ar rai amserau. Yr oedd yn cael ei esgeuluso, a'i annghofio, ac ni thelid un sylw iddo; ac yr oedd pobpeth, er gwaethaf ei gri rybuddiol, yn myned ar ei ffordd i ddinystr. Edrychai ar y cwbl, fel y dichon i un edrych ar wlad anwyl ei serch yn suddo o dan y llifeiriant, ac i ofyn, "Beth ellir wneyd i'w hachub neu ei hadferyd?" Mae yn llefain allan ar Dduw, "Plenaist hwy, iê, gwreiddiasant, cynnyddant, iê, dygant ffrwyth: agos wyt yn eu genau, a phell oddiwrth eu harenau." Mae yn llefain allan, "Yr wyf yn unig. Mae dy offeiriaid wedi fy ngadael, a'th demlau wedi eu halogi." Felly mae y prophwyd, yn llawn dig, brwdfrydedd, a barddoniaeth, yn galw yr Hollalluog i gyfrif, fel y mae ef ei hun yn cael ei alw i gyfrif gan Dduw. Ac yn hyn nid yw dyn heb gael ei gyfiawnhau; mae ganddo hawl i ofyn i Dduw am ei ffyrdd, ac i wybod nad yw y ddaear wedi ei hollol annghofio gan ei Chreawdwr.

Yn y darn rhyfeddol yma o farddoniaeth a ddarllenais, mae yn gofyn mewn geiriau ydynt yn brydferth, er yn llawn cerydd, beth a allasent

wneyd, os oeddent yn ymollwng ac yn annghofio yn awr—beth allasent wneyd pan y delai y llifeiriant, pan y delai trallod arnynt yn ei gyflawnder, pan y gadewid y tabernacl, ac yr halogid y deml. "O rhedaist ti gyda'r gwyr traed, a hwy yn dy flino, pa fodd yr ymdarewi gyda'r meirch; ac os blinasant di mewn tir heddychlawn, yn yr hwn yr ymddiriedaist, yna pa fodd y gwnai yn ymchwydd yr Iorddonen?" Oblegyd mae yr Iorddonen, er yn afonig fechan sydd bron sychu i fyny yn yr haf, yn ddarostyngedig i lifiadau nerthol a sydyn. Yn y tymhor gwlawog, mae ei dyfroedd yn gorchuddio lleiniau ëang o dir anial ar ei glanau, ac mae'r llew yn cael ei yru o'i ffau, a'r holl ddiffaethwch yn guddiedig gan lifeiriant o ddwfr. "Ac yn awr," meddai y prophwyd, "os wyt ti mor brudd, pa fodd y gwnai di yn ymchwydd yr Iorddonen?" Felly, o herwydd addasrwydd y gymhariaeth, ac enwogrwydd yr afon, mae dynion wedi defnyddio yr ymadrodd yma, a'i gymhwyso at orchwylion bywyd; felly, os byddai rhywun yn crio yn uchel o herwydd cystuddiau bychain a gofidiau dibwys, yn myned i rwgnach ac i ffromi, am nad oedd pethau bychain bywyd ddim yn myned yn mlaen yn hwylus, gofynid iddo, "Os wyt ti yn ymollwng yn amser gofidiau bychain, pa fodd y gwnai yn ymchwydd yr Iorddonen?" Mae gan rai geiriau, yn annibynol ar eu hystyr, ryw adsain o brydferthwch; maent yn swnio yn farddonol cyn y byddom braidd yn eu deall; ac wrth eu clywed gyntaf, yr ydym yn teimlo eu swyn. Mae gwirionedd rhai ymadroddion yn dwyn gogoniant ar eu prydferthwch, ymadroddion yn y rhai y cawn y fath bêrarogl o faesydd Duw, âg a rydd i ni deimlad o'r prydferthwch mwyaf dwyfol. Cawn brydferthwch ynddynt na ddangosir yn y llefariad sych o'r gwirioneddau dyfnaf. Ac o'r ymadroddion melus yma, ydynt mor lluosog yn yr ysgrythyr, ychydig sydd yn fwy prydferth nâ hwn. Ei ystyr gan hyny yw, os wyt ti mor barod i gael dy lethu, os yw beichiau ysgafn yn dy flino, ac amheuon bychain yn ormod i dy ffydd, sut y gwnai di pan y bydd afon trallod yn llawn. Os nad oes ynot ddigon o gryfder i rydio yr Iorddonen pan mae ei dyfroedd yn brin, sut y gwnai di pan y bydd yr afon yn chwyddo, pan y daw y llifeiriant mawr, a phan y bydd y ffrwd yn ddwfn ac yn llydan? I rai o honoch nid yw trallodion bywyd ond llynoedd bychain; ond mae llynoedd bychain yn gwneyd llong-ddrylliad dinystriol o lestri bychain. Ac os llestr plentyn ydyw, gall fod y tristwch o herwydd ei long-ddrylliad yn fawr ac yn ddwys. Gall y plentyn a gollodd ei gwch bychan yn y nant, ofidio mor ddwfn â'r marsiandwr ag mae ei long fawr wedi suddo gyda'i holl gyfoeth yn y dyfnder; ond i rai, mae yn dyfod amserau o dywyllwch, pan mae y galon yn ymollwng a'r afon yn galed i'w rhydio; ac y mae yn ddyledswydd ar y dyn doethi gofio fod hyn yn bossibl, i holi ei hun, ac i ofyn, "O! fy nghalon, pa fodd y gwnai yn ymchwydd yr Iorddonen?" Mae yn gweddu i'r dyn doeth i ofyn iddo ei hun sut yr ymdarawa pan y bydd afonydd bywyd yn myned yn wyllt ac yn llydan, pan y rhuthrant i lawr gan ysgubo ymaith y rhai oeddem yn garu yn fwyaf anwyl, neu yr hyn sydd waeth nâ cholli anwyliaid, pan y byddo cyfeillion yn dwyllodrus a ninau yn cael ein gadael yn nghanol gofal a thristwch, i rydio yr afon

wrthym ein hunain; neu pan y mae yr hen ŵr yn cael ei adael yn unig ar ddiwedd ei oes, pan y mae y planhigion ieuainc yn *marw*, gan adael y pren hên a chrîn mewn unigedd. Mae yn galed—yn un o bethau caletaf bywyd—i ddyn i oroesi ei hiliogaeth, i ddwyn plant i'r byd, a'u gweled yn ymadael o un i un, ac yntau yn aros ar ol. Mae yn beth caled i fod yn fam unig, wedi colli gwrthddrychau ei serch a'i llawenydd, wedi colli cyssur ei bywyd; i fod yn dad, gyda ffon y bugail, ond heb braidd i'w harwain a'u cyfarwyddo. Ah, os daw y gofidiau yma i'th ran, sut y cyfarfyddi â hwynt, pa fodd y gwnai yn ymchwydd yr Iorddonen? I fyw yn rhy hir i fwynhau llawenydd, i weled nad yw bywyd ond un siomedigaeth fawr a ffieidd-dra, i gwrdd â'r dydd pan mae dedfryd ddiobaith y dyn doeth, "Gwagedd o wagedd, gwagedd yw'r cwbl," yn ysgrifenedig ar barwydydd bywyd, i brofi fod breninoedd yn gelwyddog, ac aur yn dwyllodrus, i fwynhau pleserau ydynt, er eu melusder, yn llychwino yr enaid, i lefain allan fel Dafydd gynt,—"Paham y llwydda yr annuwiol," i gredu fod holl oruchwyliaethau Duw yn y byd yma allan o le, ac nad oes dim yn newydd, dim yn wir o dan yr haul. Dyna'r amser pryd y gall dynion weled rhyw swyn rhyfeddol yn yr ymadrodd cyffredin hwn, "Pa fodd y gwnai yn ymchwydd yr Iorddonen?" Yr wyf yn dweyd fod swyn rhyfeddol yn y geiriau yma pan yn ngwyneb rhyw drallod mawr, y deuant allan yn gywir o ddyfnder y galon. Pan mae'r galon yn llawen, a phob peth yn myned yn mlaen yn llwyddianus, y byd yma yw yr un goreu o bawb. Nid oes dim ag y gallwn ei ddwyn yn fwy parod na'r ystyriaeth o ofidiau sydd yn annhebygol o ddyfod i'n rhan ni. Mae yn hawdd dweyd pan yr ydym yn llawen fod Duw yn dda, fod pobpeth yn iawn; ond pan mae cariad wedi ei dreulio a'i dreulio yn ofer, pan nad yw pleserau yn denu mwyach, a phan mae cyfeillion yn myned yn anffyddlon, ac yn ein gadael, beth a adewir i ni y pryd hwnw? Nis gallwn ond llefain gyda'r dysgyblion gynt ar fôr Galilea, "Arglwydd, achub ni, darfu am danom."

Nid yw yn perthyn i mi ddweyd wrthych yn mha ffordd y gall trallod ddyfod i'ch rhan. Mae yn rhaid i bob dyn ar ei ben ei hun rhyw ddiwrnod weled y dyfroedd yn ymchwyddo, a'r Iorddonen yn codi. Fe ddaw i bob dyn rywbryd, gan ruthro i lawr fel rhyw ffrwd fynyddig. Ar ddiwedd bywyd, i bob un o honom, mae ymchwydd mawr yn yr Iorddonen; a pha mor ddwfn a llydan bynag y byddo'r afon, mae yn rhaid i ni groesi ei dyfroedd. Nid oes modd gochelyd y *passage* diweddaf hwnw dros afon profedigaeth. Mae y dyn dewr yn troi ei wyneb tuag yno yn aml, er fod y dewraf ambell waith yn petruso, fel ag y gwna ymdrochwyr gydag un droed yn y môr. Ond mae y dyn dewr yn troi tuag yno yn wrol, ac yn gofyn iddo ei hun, gan barotoi yn ddoeth ar gyfer yr amgylchiad, "Pa fodd y gwnai yn ymchwydd yr Iorddonen?" Sut y gwynebi di yr afon hono? Mae y rhai hyn yn ofyniadau a esyd dyn iddo ei hun yn fynych mewn amseroedd o dawelwch. Ac os y daw dydd, pan y bydd ei ffydd yn wan, pan ymddengys trefn Duw iddo fel cymmysgedd ac annrhefn, pan y geilw yr Hollalluog i gyfrif, ac y gofyna iddo fel gwnaeth Job, a ydyw yn

gwybod beth mae yn wneyd ; os daw y fath ddiwrnod, mae yn rhaid iddo barotoi ei hun ar ei gyfer goreu byth ag y medro. A chyda pha faint bynag o athroniaeth yr edrychwn ar y pethau hyn, pa mor ddoeth bynag y gallwn ymresymu yn nghylch poen a thrallod, maent yn boen a thrallod er hyny. Ni wna myfyrdod arnynt eu gwneyd yn llai anhyfryd ; er gwaethaf pob cydnabyddiaeth ac ystyriaeth mae trallod yn aros yn drallod o hyd. A beidia Rahel er gwybod am y wlad tuhwnt i'r bedd, wylo am ei phlant ? Ai ni ddarfu i Grist ei hun wrth sefyll uwchben bedd ei gyfaill roddi ei hun i fyny i dristwch dynol, a wylo am Lazarus, er ei fod yn gwybod y cwbl ! Mae amser trallod yn dyfod yn drwm ar y rhai parotaf i'w gyfarfod, ond arno ef sydd yn petruso fwyaf mae yn dyfod drymaf. Gellir gwneyd parotoad, ac nid yw yn anfuddiol. Ond wrth groesi yr Iorddonen yn angau mae hyn i'w ddweyd ; mae yn rhaid i ni ei chroesi ein hunain. Bydd y *passage* yn unig dros yr afon unig hono. Ni all un cyfaill, er mor anwyl, ganlyn er mwyn ein calonogi, a'n dal i fyny os byddwn yn wan ; yn mhob trallod arall gall fod cyssuron ; os yw breichiau Moses yn ymollwng, mae yno rai i'w cynnal i fyny ; ond yma yr ydym yn myned yn unig, mae yn rhaid i'r rhai a'n canlynant hyd lan yr afon ein gadael ni yno. Pan y maent yn troi ymaith gyda'u geiriau diweddaf, pan y byddi dithau yn edrych ar donau duon afon marwolaeth, pa fodd y bydd gyda thi, " Pa fodd y gwnai yn ymchwydd yr Iorddonen ? " Etto, fel ydwyf wedi dweyd, y dyn gwrol a ystyria hyn yn fynych, ac addfeda ei brofiad yn ddoeth ar ei gyfer. Nis gall ymlid ymaith y perygl, ond gall leihau ei ofn. Nis gall un pregethwr, prophwyd, na bardd, beidio teimlo yn awr ei gyfyngder olaf ; ond gall ystyriaeth wastadol a gwrol o'r brofedigaeth ei gymhwyso yn y fath fodd, fel ag y gall, er mewn perygl o gael ei gario ymaith gan y llifeiriant, basio trwyddo yn ddyogel i'r ochr draw. Dywedwyd gan un a wyddai am ymchwydd yr Iorddonen, fod ei ffrwd yn hawdd i'w rhydio gan y ffyddiog, ond ei bod yn ddwfn i'r rhai amheus, a bod dyfnder yr afon yn amrywio gyda'r un a groesai ; fel yr oedd ffydd yn pallu, felly yr oedd y dyfroedd yn chwyddo yn uwch. Yr oedd Bunyan yn adnabod yr afon, ac yn ei lyfr mae yn ysgrifenedig wir hanes ymchwydd yr Iorddonen ; mae'r hwn sydd yn llawn ffydd yn myned drosodd yn droedsych, tra mae'r dyfroedd yn ymgasglu dros yr hwn sydd yn amddifad o ffydd, ac yn barod i ymollwng. Gall y fath ddealldwriaeth o'r cariad dwyfol lewyrchu ar enaid y Cristion wrth groesi yr afon, fel âg i'w gynnorthwyo i fyned drosti, hyd y nod mewn llawenydd. Cyhyd ag y parhao cariad, nid oes dim allan o le ; nes y byddo cariad Duw yn pallu, ni phrofwn ofn. Trwy gyflawnder ei gariad Ef mae yr afon yn peidio ymchwyddo ; yn rhydiau ei gariad Ef, yr ydym yn gweled dyfnderoedd ein anobaith. Ni fydd cariad dynol o un lles yno, ond mae cariad Duw yn aros gyda ni. A annghofia gwraig ei phlentyn sugno ? Mae hyny yn bossibilrwydd braidd anmhossibl ; ond Duw nid annghofia ni. A all gwraig annghofio ei phlentyn sugno ? Mae *just* yn bossibl ; ond ni anghofia yr Hollalluog y plentyn a greodd. "Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant Ef." Tosturi anfeidrol dyn mawr

at blentyn bychan, beth ydyw ond efengyl Duw wedi ei hysgrifenu mewn llythyr o gariad! Melus yw llythyrau Duw'r cariad! Ac mae cariad anfeidrol mam, a chariad mawr a thosturi tad at ei blentyn yn efengyl wedi ei hysgrifenu gan yr Yspryd Glan.

"O! am gael nerth i ymlid bant
'R amheuon sydd yn blino'th blant."

Ar amserau, mae y galon yn llawenhau i weled ei hanhawsderau yn cael eu gosod yn ngeiriau hen hymnau melus fel yr un uchod; ond cofiwch, er nad ydym wedi cael y fraint o sefyll gyda Moses ar uchelfanau Pisgah, ac o gael golwg ar wlad yr addewid, fod Duw wedi anfon ei genad nefol i ddweyd wrthym am ei gogoniant. Ac yr ydym yn gwybod fod yn aros i ni, tuhwnt i'r afon, y wlad o lawer o drigfanau, preswylfa tangnefedd tragywyddol.

O'r "*Truthseeker*" am Awst, 1873.

"Am graig i adeiladu,
Fy enaid chwilia'n ddwys,
Y sylfaen fawr safadwy,
I roddi arni'th bwys.
Bydd melus yn yr afon,
Gael craig a'm deil i'r lan,
Pan byddo'r 'storom olaf
Yn curo f'enaid gwan."

YN YR AIFFT.

Chwefror 17.—Wel, dyma ni i fyny yn lled foreu, ond dim Alexandria etto. Ni fyddwn ni ddim yn hir, serch hyny. Mae'r llong yn myned yn y blaen yn hwylus iawn, a bydd Alexandria yn y golwg yn y man. Mae i Alexandria hanes ddyddorol iawn. Derbyniodd ei henw oddiwrth Alexander fawr (332 c.c.,) yr hwn, wedi iddo orchfygu y byd, a ddechreuodd lefain na byddai ganddo fyd arall i'w orchfygu. Yma 'roedd prif ddinas yr Aifft yn amser y Ptolemiaid; yma y gwnaethpwyd cyfieithiad y LXX. o'r Beibl wrth orchymyn Ptolemy Philadelphus (c.c. 286); yma yr oedd un o brif lyfr-gelloedd yr hen fyd, ac attynfa dysgedigion o bob cwr. Dyoddefodd y brif lyfr-gell yn fawr pan y gwarchaewyd Julius Cæsar yma, a dinystriwyd hi yn llwyr yn y flwyddyn o.c. 651 gan Amrou, *lieutenant* y Caliph Omar, yr hwn a orchymmynodd hyny, gan ychwanegu,—"Os yw yr ysgrifeniadau yma yn cytuno á llyfr Duw (h.y. y Coran), nid ydynt o un defnydd, ac nid oes eisiau eu cadw; os nad ydynt, y maent yn niweidiol, a dylent gael eu distrywio." (*Gibbon* vi. 409.) Dywedir i'r llyfrau wasanaethu am chwe' mis tuag at dwymno y 4,000 *baths* oedd yn Alexandria. Yr oedd y llyfrau yn gan' mil ar farwolaeth Ptolemy Soter, a dywedir iddynt gael eu cynnyddu i gymmaint saith gwaith gan ei olynyddion.

Mae Gibbon yn amheu gwirionedd llosgiad y llyfrau, ond y mae'n ychwanegu yn ei yspryd *sarcastic* arferol:—"Os difawyd cruglwyth aruthrol y ddadl Ariaidd a Monophysitaidd mewn gwirionedd yn y *public baths*, gall philosophydd addef gyda gwên ei fod o'r diwedd wedi ei gyflwyno at wasanaeth dynolryw," (vi. 411). Yn Alexandria y bu Marc yr efengylwr yn pregethu ac yn sefydlu eglwys, ac yma y derbyniodd goron merthyrdod. Yma y ganwyd Apolos, ac y bu Cleopatra, brenines yr Aifft, yn byw. Dangosir y man lle y gorchfygwyd ei byddin gan Augustus, ymerawdwr Rhufain. Yma gynt oedd goleudŷ Pharos, un o saith ryfeddodau yr hen fyd. Yr wyf yn cofio y tro cyntaf i mi fod yn L'erpwl, i mi gael fy synu yn fawr gan garedigrwydd (?) un dosparth o fobl yno. Yr oeddynt yn barod, bawb o honynt, â'u help. Carient fy *luggage*, a charient finau; ac os gallaswn farnu wrth eu sŵn, bwytäent fi o gariad tuag ataf. Yr oeddynt fel "cwn am yr asgwrn yn ymladd,"—yn caru'r asgwrn, ond nid yn caru eu gilydd. Yr wyf yn amheus trwy'r cwbl, er cymmaint y cariad arddangosedig, a oedd yr asgwrn yn teimlo'n rhy gyssurus. Rhywbeth yn debyg, ond anfeidrol mwy tarawiadol, oedd yr olygfa rhwng 8 a 9 o'r gloch, pan oedd y llong yn ymylu ar Alexandria. "Iscanderia" yw yr enw yma. Yr oedd yma ugeiniau o fadau yn amgylchu y llong, ac un neu ddau ddyn yn mhob bad. Yr oedd digon o fywyd yn mhob bad i fywydu deg bad, a digon o sŵn yn mhob cêg, pe gellid ei ddosparthu yn briodol, i'w ranu rhwng y 500 oedd yn gwneuthur i fyny gôr Caradog; ac nid oedd yma, debygaf, ddim llawer dan 500 o gegau—cegau dynion o bob lliw, o wyniaid tecaf Ewrop hyd at dduaf ddynion gwlad Theodore—Abyssinia. Yr oedd y ffurfiau hefyd yn amrywio yn ddirfawr, ond mwy fyth oedd amrywiaeth y gwisgoedd—amrywiaeth yn y lliwiau, ac yn y ffurfiau. Gallaswn feddwl fod yma yn nghyd bron bob ffasiwn ('dw' i ddim, fodd bynag, yn hyddysg yn hanes y ffasiynau) o wisgoedd y cyngodymiaid Edenaidd trwy'r holl ganrifoedd Cyn-Gristionogol ac Ol-Gristionogol hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pwnc pwysig, ac yn gofyn ystyriaeth oedd, sut oedd mentro i blith y rhai hyn. Digon drwg oedd syrthio i blith *porters* L'erpwl, ond gellid deall ychydig ar y rhai hyny. Rhywbeth ofnadwy yw sŵn mawr ac annealladwy yn dylifo o eneuau dynion. *Porter, sir; guide, sir; boat, sir.* Na, na, buasem yn deall hynyna. Rhywbeth hollol annealladwy oedd yn cael ei waeddi gan y creaduriaid yma, a theimlem yn falch ein bod ar fwrdd y llong, yn ddigon pell o'u gafael, ac yn cael ein gwarchae yn dda rhag eu crafangau peryglus. Fuasem ni ddim pob o damaid rhwng cynnifer. Bob yn ychydig, dyma bob peth yn barod. *Agent* wedi dyfod drosodd atom, wedi hurio'r badau yn barod. Rhaid gadael y llong, a mentro nad faint y perygl. Rhaid peidio bod yn *chicken-hearted.* "*Faint heart never won fair lady,*" nad beth ydyw ystyr hyny. Toc, dyma ni wedi glanio—tir unwaith etto, *terra firma*—yr Aifft. Ond naill ai nid yw'r *terra* ddim yn *firma*, y tir ddim yn ffirym, neu ynte mae'r llong wedi rhoddi cyfnewidiad mawr i ddull ein symmudiadau, oblegyd yr ydym yn *swayo* fel y llong yn gywir. Y peth cyntaf wedi glanio, yw pasio trwy y *Custom House*, a

phrofi trwy ddangos y *passports* a gawsom trwy garedigrwydd Iarll Granville, nad ydym ni ddim pobl beryglus. Yr ydym yn rhoddi i fyny ein *passports*, ac yn eu cael yn ol drachefn, yn nghyda thicedau, y rhai ydynt yn ein galluogi i fyned allan yn ddyuion rhyddion ar dir yr Aifft. Mae'r *luggage* yn canlyn wedi ychydig rwbio dwylaw, ac ychydig ddefnyddio ar y *palm oil*. Dim ond heddyw sydd genym i weled rhyfeddodau Alexandria; am hyny, rhaid gwneuthur y goreu o'r amser, a dyma ni i ffwrdd i weled Palas y Rhaglaw; ac wedi tipyn o gynbryd *(lunch)* yn yr Hotel del' Europe, i weled y *Public Gardens*; ond gan nad wyf yn cofio dim yn neillduol, ni ddywedaf ddim yn neillduol am danynt. Wedi hyny, aethom i weled Cleopatra's Needle, colofn fawr a safai gynt yn Heliopolis ("On" y Beibl.—Gen. xli. 45—50; xlvi. 20.) Bu Plato yn studio yn On. Granite Coch yw'r defnydd, o gwarel Syene. Mae yn 70 troedfedd o uchder,—un gareg *solid*. Mae ysgrifen *(picture-writing)* arni yn awr, ac yn ddarllenadwy, a deallir oddiwrthi iddi gael ei cherfio tua 2050 cyn Crist, gan Sesertesen I., gwr boneddig; os yw eisioes yn ddigon adnabyddus i'r darllenydd, nid oes angen dweyd dim rhagor am dano. Rhaid fod bysedd lled gedyrn gan Cleopatra os defnyddiai y golofn hon yn lle nodwydd.

Pompey's Pillar, neu yn hytrach Colofn Diocletian, yr ymerawdwr Rhufeinig, 284—305, yr hwn a fu'n erlid y Cristnogion, 303. Dywedir fod amryw forwyr Seisnig ac un foneddiges o'r Iwerddon wedi dringo i ben y golofn yma. Adroddir 'stori hefyd am un Voltigeur, yr hwn a aeth i fyny ag asyn ar ei gefn, a daeth i lawr ag ef boreu dranoeth. O bossibl iddo i gysgu i fyny ei hunan. Mae'r golofn yma yn 98 troedfedd o uchder. Peth rhyfedd arall a welsom, oedd gwlaw. Yr oedd yn wlaw gwlyb, ac yn debyg yn mhob ystyr, mor bell ag y gallem ni ganfod, i'r gwlaw oeddym yn arfer gael gartref. Yr oeddem wedi arfer clywed fod gwlawio yn beth dyeithr i'r Aifft. Priodolir y cyfnewidiad i'r coedydd sydd wedi eu planu yn ddiweddar yno. Mae hyny yn debyg iawn, a da fyddai pe plenid rhagor. Mae y Rhaglaw presenol yn dwyn gwelliantau mawrion i'r wlad. Cawn nodi rhai wrth fyned yn y blaen. Wedi cael tipyn o fwyd yn gyssurus, a thipyn o siarad yn nghylch rhyfeddodau y dydd, aethom bob un i'w wely. Gwely rhyfedd; tebyg iawn i'r *safes* a welir yn rhai manau i gadw cig rhag y cylion; a dyma, mae'n debyg, yw dyben y rhai hyn,—cadw ein tipyn cig rhag y mosquitoes. Nid yw'r mosquitoes wedi gwneuthur eu hymddangosiad yma eleni etto. Mae yn rhy gynar yn y flwyddyn, ac yn rhy oer. Yn gwybod hyny, wele fi i mewn i'r box canvas yma, ac yn cysgu yn weddol dda (ond etto megys yn swn yr *engine*, y llong, a thonau'r môr,) hyd y boreu. S.

Nid yw dyn bellach yn aros am awelon ffafriol, ond trwy offerynoliaeth ager, mae'n sylweddoli chwedl cwdyn Aeolus, ac yn cario y deuddeg gwynt ar hugain yn mherwedydd ei fad.—EMERSON.

GWEDDI Y DIACON.

Yr oedd diacon da iawn, amaethwr, un amser yn byw yn nghymmydogaeth Maesgwyn, maesydd yr hwn oeddynt un flwyddyn wedi cnydio yn dda—y cnwd gwenith yn hynod felly. Yn wir, ni chafodd cystal erioed, na chynt, nac wed'yn. Bwriadai fyned â pheth o hono boreu dydd Llun rhyw ugain milldir i farchnad Pontlas. Y Sabboth blaenorol, bu yn y cwrdd ddau pen y dydd, a chan y teimlai mor hapus fod ei faesydd wedi cnydio mor dda, rhoddodd ddeg swllt fwy nag arfer at yr achos yn y lle. Boreu dranoeth, ymaith yr aeth gyda chalon ysgafn â'i wenith i'r farchnad. Wedi cael pwrcaswr wrth ei fodd, gwerthodd ei ŷd iddo; ond synodd ychydig, a chafodd ei foddio yn annghyffredin, pan wedi dychwelyd adref y cafodd allan, wrth rifo yr arian, ei fod wedi derbyn deg swllt yn fwy nag oedd ddyledus iddo. Yr oedd yn rhifyddwr da, ond meddyliai ei fod wedi camsynied; ond pe buasai yn dygwydd bod fel arall, mae yn beth possibl ddigon y buasai yn cymmeryd amser i ail gyfrif y swm. Gan nad beth am hyny, ymaith yr aeth yn o frysiog, a dywedai wrtho ei hunan, "Mae y masnachwr yn gwybod yn eithaf da beth mae yn wneyd. Mae yn ddyn llygadgraff, a thebygol yw nad yw wedi rhoddi rhagor o arian i mi nag a fwriadai. Heblaw hyny, nis gallaf ryfeddu dim os daeth y darn deg swllt yma i mi oddiwrth yr Arglwydd, oblegyd yr oedd Ef, ac nid oedd neb arall, yn gwybod fy mod i wedi gosod y swm yma yn ychwaneg i'r hyn oeddwn yn arfer roi i'w drysorfa ddoe." Dyma'r casgliad y daeth y diacon iddo wrth ddychwelyd adref gyda chalon ysgafn.

Treiglodd blynyddau meithion ymaith, a chysgai y gydwybod yn dawel. Gallesid meddwl na fuasai yn aflonyddu ei pherchenog byth, nac yn ei alw i gyfrif byth am fogi ei llais. Un diwrnod yr oedd y brawd yma mewn cyflwr meddwl anarferol. Edrychai yn mlaen, oblegyd yr oedd yn awr mewn gwth o oedran, at y dyfodol, a chymharai ei ymddygiad blaenorol â'r hyn a ddylai ac y dymunai fod, ac anerchodd ei Greawdwr mewn gweddi daer a difrifol. Teimlai ei gyfrifoldeb i Dduw, a'i ymddibyniad arno. Rhywbeth tebyg oedd ei weddi i eiddo y Salmydd, a digon tebyg iddo ddefnyddio yr un geiriau:—"Arglwydd, chwiliaist ac adnabuost fi: Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm cyfodiad: dealli fy meddwl o bell. Amgylchyni fy llwybr, a hysbys wyt yn fy holl ffyrdd. * * * Chwilia fi, a gwybydd fy meddyliau; a gwel a oes ffordd annuwiol genyf, a thywys fi yn y ffordd dragywyddol." Gweddi sobr a difrifol ydoedd, ac atebwyd hi; oblegyd cyn codi o hono oddiar ei liniau, meddyliodd am yr hanner *sovereign* oedd wedi dderbyn yn ormod am y gwenith o ddeg i bymtheg mlynedd yn ol. Nid oedd wedi meddwl dim am ei anonestrwydd oddiar hyny hyd yn bresenol, ac ystyriai ac arferai edrych ar y darn aur fel ffafr neillduol oddiwrth Dduw; ond ymddengys mewn goleu gwahanol iddo yn awr. Y mae yn peri poen yn hytrach nâ phleser.

Dywedai hi wrtho, "Darfu i ti fy nghymmeryd pan nad oedd genyt un hawl i mi." Aeth y diacon allan o'i ystafell i'w lyfrgell, a'r peth cyntaf a welai yn y llyfr yr ymaflodd ynddo oedd hanner *sovereign*. Wedi hyny aeth i'w ardd, ac edrychodd ar y rhosynau, a'r *marigold*, a llawer o flodau ereill; ond ymddangosai hanner *sovereign* fel pe yn aroglu o'r oll o honynt. I ba le bynag yr edrychai, yr oedd hi yno. Beth oedd ganddo i'w wneyd? Ah! atebwyd ei weddi. Aeth yn union i'w ystabl, gosododd un o'i geffylau yn ei gerbyd, ac ymaith ag ef gyda phob brys i'r Bontlas; ac yr oedd yn llawen iawn ganddo gael ar ddeall fod y masnachwr yn fyw, yn iach, ac yn ei fasnachdy. "Yr wyf yn eich dyled o hanner *sovereign* gyda llôg," meddai, wedi siarad ychydig eiriau cyfarchiadol. Ymdrechodd ddwyn i'w gof, er ei fawr syndod, y fargen a wnaeth ag ef am y gwenith ddeng mlynedd neu ragor yn ol. "Nis gallaf gofio," ebe y masnachwr; "onid ydych wedi camsynied? Yr wyf yn ofalus iawn yn fy nhrafodaeth yn gyffredin." "Yr oeddwn yn camsynied y pryd hwnw; ond nid felly yn awr," ebe y diacon, gan osod y darn aur ar fwrdd y masnachwr. "Gan na chymmerwch lôg, gadawaf hon i chwi." "Paham y darfu i chwi aros cyhyd?" meddai y masnachwr. Yna dywedodd y diacon sut y daeth i'w galon y boreu pan ofynodd am gael ei chwilio gan Un sydd yn Chwiliwr mawr ein calonau ni oll, a sut yr oedd yr hanner *sovereign* wedi ymddangos iddo yn ngoleuni y fath ymchwiliad.

A. M. T.

CALFINIAETH AC ARMINIAETH.

Yn ol y *Goleuad* am Mehefin 28ain, dywedodd Dr. Edwards, o'r Bala, mewn cymmanfa yn ddiweddar, ei bod "yn ffâith hynod fod rhyddid bob amser yn gydfynedol â Chalfiniaeth; a lle bynag yr oedd Arminiaeth yn ffynu, fod gormes yn bur fuan yn ennill y fuddugoliaeth. O'r ochr arall, lle yr oedd Calfiniaeth bur ac iachus yn cael ei ddal i fyny, yno yr oedd rhyddid yn ffynu. Gellid profi y ffaith yna oddiwrth hanes ein gwlad ein hunain. Armin oedd Archesgob Laud, ac esgobion ei amser ef, a darfu iddynt suddo i drueni ac erledigaeth. Yr oedd y Cyfammodwyr yn Galfiniaid, ac yn ategwyr mawr i ryddid. Yr ydym yn ddyledus am ein rhyddid i fesur mawr i Gyfammodwyr Ysgotland." Y mae yn ffaith fod amgylchiadau yn dibynu mwy neu lai ar y spectol trwy yr hwn yr edrychir arnynt. Darllenir hanes yn wahanol yn ol y spectol: nid yr un y bydd trwy spectol Armin a spectol Calfin. Ond ffaith alarus yw, gan nad pa spectol bynag a wisgir, mai Calfin ei hun fu'n achos marwolaeth Serfetus. Mae'n bossibl yn wir nad yw Calfin i'w ystyried yn Galfin yn ol Calfiniaeth Dr. Edwards, ond yn hytrach fel y gwnai Beecher ei ystyried.—(Gwel Ymofynydd, Rhif I.) Dichon fod Calfiniaid ac Arminiaid yn well yn awr nag oeddynt yn y dyddiau gynt, ac yn fwy rhydd oddiwrth bob math o erlid.

A.

AMSER A'I BWYSIGRWYDD.

"Who murders time, he crushes in the birth
A power ethereal, only not adored."

Un cyflym rhyfeddol ydyw amser; daw rhagddo fel y llanw cryfaf, ac encilia fel y ffrwd gyflymaf. Nid erys fynyd byth, ond ymdreigla yn ddystaw tua therfyn yr oesawl fyd, ac y mae pob ysgogiad o'i eiddo yn ein trosglwyddo yn nes at yr awr bruddaidd a phwysig hono pryd y dadgyssylltir ni oddiwrth bob peth a welir, ac y trosglwyddir ni i fyd y sylweddau tragywyddol. Teflir ni yn ein genedigaeth ar lifeiriant amser, ac y mae yn rhaid i ni gynnyddu a dadfeilio fel y dygir ni rhagom. Weithiau cludir ni ganddo trwy ddyffrynoedd a maesydd prydferth, y rhai a fantellir gan wyrddlesni blodeuog, gyda symmudiad mor araf a thawel, fel braidd y gallwn dybied ein bod yn myned rhagom o gwbl; ond mynod yr ydym, a hyny yn barhaus. Mae'n amlwg am y byd yr ydym yn byw ynddo, nad oes dim sydd ynddo yn aros yn sefydlog a digyfnewid. "Ceaseless progress is the law of nature." Mae pob peth yn myned yn mlaen yn barhaus—mae amser a bywyd yn myned rhagddynt; ac yn mhlith y cwbl a welir, nid oes dim yn parhau yr un. Er nad yw amser yn gwneyd ei argraff ar rai pethau mor fuan â'u gilydd, etto mae hyd y nôd y graig gadarn a diysgog yn briwsioni gyda threigliad yr oesau, a'r mynyddoedd tragwyddol yn heneiddio. Gellid meddwl wrth edrych ar gadernid a diysgogrwydd ymddangosiadol y ddaear, ei bod yn meddu ar holl elfenau anughyfnewidioldeb; ond pan edrychir yn fanwl, canfyddir arwydd henaint arni, a deddf dadfeiliad yn raddol ymweithio o'i mewn. Deddf fawr y byd hwn, argraffedig ar y cwbl a berthyn iddo, ydyw ansefydlogrwydd a chyfnewidioldeb. Nid yr un yw sefyllfa ein gwlad yn wladyddol, moesol, a chrefyddol yn awr â'r hyn oedd ychydig o flynyddoedd yn ol. Nid yr un ydyw ein syniadau am bethau, oblegyd nid oddiar yr un safle yn hollol edrychwn arnynt. Nid yr un ydyw ein cyssylltiadau teuluaidd a chymdeithasol; nid yr un 'chwaith, ydyw maint ein cyfrifoldeb i Dduw. Mae pob blwyddyn a estynir i ni, a phob trugaredd a roddir i ni, yn mwyhau ein cyfrifoldeb i'r Rhoddwr dwyfol. Teimla pob dyn meddylgar nas gellir atal amser a bywyd i fyned rhagddynt. Dywed y Beibl i'r haul unwaith sefyll, ond ni wnaeth bywyd hyny crioed, ac ni wna hyny byth. Aeth y cysgod ar y deial yn ei ol saith o raddau, ond ni wnaeth amser felly. Fe ataliwyd yr Iorddonen ar ei thaith, ond parhaodd ffrwd amser i redeg mor chwyrn âg crioed.

"Time hurries on
With a resistless unremitting stream,
Yet treads more soft than e'er did midnight thief."

Ymddengys i'n golwg weithiau fel pe byddai rhyw sefydlogrwydd yn perthyn i'r natur ddynol, nad yw amser yn gwneyd un cyfnewidiad

allanol ar lawer am flynyddau meithion. Mae ffurf ei wyneb, ystum ei gorff, a'i fywyd allanol yn parhau yr un—nid yw wedi cyfnewid dim o'r peth oedd bum' mlynedd yn ol. Gellir meddwl fod amser wedi ei annghofio, a bod holl elfenau dadfeiliad wedi eu symmud o'i gyfansoddiad; ond er ei fod yn ymddangos i ni fel wedi cyrhaedd rhyw bwynt arosol, nid yw felly yn nghyfrif Duw. Mae yn ddyn gwahanol i'r peth oedd flynyddau yn ol; mae wedi symmud yn mhell o'r safle yr oedd arno o'r blaen. Os yw yn parhau yr un o ran agwedd ei gorff, nid yw felly yn ansawdd ei feddwl. Os nad oes un cyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn ei natur allanol, mae rhywbeth yn dirgel ymffurfio o'i fewn, effeithiau yr hwn a bery mewn bod cyhyd âg ef ei hun. Nid yw olwyn fawr amser yn rhoddi tro fyth heb wneyd argraff arosol ar feddwl ac yspryd dyn. Fel nad yw yn bossibl dwyn y sêl i gyffyrddiad a'r cwyr toddedig heb iddi wneyd ei hargraff arno, yn gyffelyb nis gall dyn ddyfod i gyssylltiad âg amgylchiadau ac helyntion y byd, heb iddynt ddylanwadu yn rymus er da neu er drwg arno. Er fod dyn yn greadur sydd i oroesi amser, ac i hanfodi yn ddiddiwedd, etto mae yn ddarostyngedig i ddylanwad ei helyntion a'i ddygwyddiadau. Bydd ef ar gael pan fydd holl *affairs* y byd hwn wedi eu dirwyn i fyny, ac amser wedi ymgolli yn y tragwyddol. Etto, tra yn ei gyssylltiad âg amser y ffurfia y peth hwnw a'i gwna yn dragwyddol ddedwydd neu druenus. "Time is the life of the soul; it ripens it for the great and glorious harvest of eternity."

Pwy gan hyny fedr ddirnad gwerth a phwysigrwydd amser? Pa angel neu seraff all ddatguddio yn gyflawn i ni bwysigrwydd llawer mynyd mewn bywyd? Pa feddwl sydd yn ddigon treiddgar i ganfod pa faint o'n dyfodol gynnwysa llawer mynyd yn ein bywyd? Sylwodd Napoleon I. unwaith fod *crisis* yn perthyn i bob brwydr, pryd y mae deng mynyd weithiau yn ddigon i benderfynu y fuddugoliaeth o'r naill ochr neu y llall; a dygwydd yn aml i dynged ymerodraethau ymddibynu ar air o orchymmyn a roddir yn frysiog yn nghanol rhuadau magnelau, a thwrf gwrthdarawiad arfau. Yn gyffelyb y mae rhyw *grisis* yn perthyn i fywyd dyn, i roddi cyfeiriad i'w ddyfodol diddiwedd, ac i ddylanwadu yn dragwyddol arno. Dywed un,—"Special conjunctions of circumstances occur, like the point where cross roads meet, when the success of the journey depends upon selecting the right path, and our conduct at such critical times may influence all the future years of our life." Pan yr ymddyeithriodd Jacob i fyned o flaen ei dad i etifeddu yn dwyllodrus y fendith, dylanwadodd y weithred fradwrus hon ar ei holl fywyd. Pan ddaeth y dyn ieuanc hwnw mewn brys, a chydag ymostyngiad allanol mawr, at Grist,—"Athraw da," meddai, "wrth wneuthur pa beth yr etifeddaf fi fywyd tragwyddol, &c.?" Pwy fedr ddweyd yr hanes a gynnwysai y foment hon yn mywyd y llywodraethwr ieuanc yma, pan y bu ei gyfoeth yn achos iddo droi ei gefn mewn enciliad oddiwrth Grist? Pan y gwrandawai y brenin Iuddewig yn y llys ar y carcharor Paul yn mynegu geiriau "gwirionedd a sobrwydd" gyda'r fath nerth a dylanwad, nes peri i'r brenin, o dan fesur o ddylanwad argyhoeddiadol y gwirionedd, ateb, "Yr wyt o fewn

ychydig i'm hennill i fod yn Gristion." Oh adeg bwysig yn mywyd y brenin ieuanc! Ie, mor bwysig, meddaf, a bod ei ddyfodol tragwyddol yn ymddibynu ar y modd yr ymddygai yn awr tuag at genadwri Duw trwy ei wirionedd ato. Mor wahanol i Paul pan ar ei daith tua Damascus yr ymddygodd Agrippa! Bu yn anufudd i'r alwedigaeth ddwyfol. Ni adawodd i'r gwirioneddau a draethodd Paul wrtho i gael y lle dyladwy a'r dylanwad priodol ar ei feddwl. Deliodd yn ysgafn â hwy, ac felly terfynodd y cwbl. Ymwasgarodd y dorf, a gadawyd lle y cynnulliad yn wag, i adsain yn unig sibrwd yr awelon nosawl, neu luchiadau tonau y glanau cymmydogaethol. Arweiniwyd Paul i'w gell, ac ymneillduodd Agrippa i'w balas breninol, ac ni ddaethant i'r fath gyfarfyddiad â'u gilydd byth mwy. Dyma y pryd y bu Agrippa agosaf i fod yn gadwedig yn ystod ei fywyd; nid oedd ond cam bychan rhyngddo â phorth y nefoedd; daeth o fewn ychydig iddi. Cafodd bob mantais i ddyfod fel Paul yn "Gristion cwbl oll;" ond ni fynai ddyfod. Gadawodd i'r adeg fyned heibio heb ei hiawn-ddefnyddio. Y mae yn amlwg nas gellir plymio ag un blymen o ddealldwriaeth ddynol, bwysigrwydd yr amser hwnw yn ngyrfa dragwyddol dyn, pan y datguddia y gwirionedd dwyfol ei hun i'w feddwl, ac y gafaela yn ei gydwybod yn y fath fodd nes ei ddwyn i ymdeimlo â phwysigrwydd ei fodolaeth fel creadur moesol a chyfrifol: dyma *grisis* mawr ei fywyd. Pa fodd bynag y gweithreda y pryd hwnw, pa un ai fel Paul neu fel Agrippa, dylanwada hyn gymmaint arno nes newid ei safle mewn cyfrifoldeb—nes rhanu ei fywyd yn ddau gyfnod. Megys y darfu i ddyfodiad Crist i'r byd rannu ei hanes yn ddau gyfnod, felly y gwna dyfodiad y gwirionedd dwyfol yn ei ddylanwadau argyhoeddiadol i yspryd cyfrifol dyn: nid yr un yw ei safle rhagllaw yn nghylch moesol bodolaeth: newidir ei berthynas â phobpeth. Os bu mewn amheuaeth am wirionedd y datguddiad dwyfol, dyma brawf bellach o'i wirionedd; neu os bu mewn tywyllwch am Dduw, mae wedi ei arwain i'r goleuni, yn llewyrch yr hwn y gall ddeall a gweled y cwbl yn eglur; am hyny "y gorchymmyn Duw yr awr hon ganddo i edifarhau." Ond mae yn ddifrifol meddwl fod yn bossibl i'r fath adegau a hyn yn mywyd dyn i fyned heibio heb iddo deimlo eu pwysigrwydd. Cawn enghreifftiau o hyn yn Agrippa, Pilat, a'u cyffelyb, y rhai sydd wedi eu codi i fyny i fod yn oleudai er mwyn ein hatal rhag gwneyd llongddrylliad cyffelyb. Nid oes un gwirionedd a ddysgir yn eglurach yn yr Ysgrythyrau nâ bod i ddydd gras ei derfynau, fel pan fydd wedi myned heibio ar rai, bydd y pethau a berthynent i'w heddwch a'u dedwyddwch tragwyddol wedi eu cuddio am byth allan o'u golwg. Yr oedd i drigolion Jerusalem eu dydd, ac yr oedd i'r dydd hwnw ei derfynau; ac unwaith yr aeth drosodd, dywedir i'r cwbl a "berthynent i'w heddwch fyned yn guddiedig oddiwrth eu llygaid." Mae y gwirionedd hwn yn dyfod i'r golwg yn y taerineb hwnw gyda'r hwn y cymhellir dyn i wneuthur defnydd o'r amser presenol. "Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd Ef, na chaledwch eich calonau." "Wele yn awr yr amser cymmeradwy." Wel ynte, os ydym yn gwybod beth yw fod Gair Duw yn ymryson â'n meddyliau—beth yw fod Duw drwy yr Efengyl yn curo wrth ddrws

ein calonau am ddyfodiad i mewn, gwyliwn roddi derbyniad iddo. Cymmerwn afael ar y cyfleusdra; tra mae yn curo, rhoddwn agoriad, rhag iddo fythol gefnu arnom. "Thou canst not delay for a single moment; above, hangs unchanged the future, and underneath grows the past, and becomes always larger, the further it flies back. And thou askest, 'What remains with me?' 'The present,' I answer; 'however much time may fly away from you, the present is your eternity and never abandons you.'"

W.

Y FFORDD I GYSGU YN DDA.

Scweier Jones o Blasygraig, yr oedd yn methu yn lân a chael cysgu. Yr oedd ganddo balas ardderchog, maesydd heirdd a ffrwythlawn, cerbyd gwych, a cheffylau gwych yn atteb. Arlwyid ei fwrdd â phob danteithion, ac yr oedd ganddo gyfeillion o'r mwyaf llawen yn y byd, ac etto i gyd yr oedd Scweier Jones yn methu yn lân â chysgu. Weithiau elai i'r gwely yn gynnar, weithiau yn ddiweddar; ond cynnar neu ddiweddar, yr un oedd y canlyniad. Dim heddwch i'r annuwiol, dim gorphwys i Scweier Jones. Aeth i ofyn cynghor gan ei gyfeillion, y rhai a ddywedasant wrtho am gymmeryd rhagor o ymarferiad corff-orol, rhagor o *exercise*, ac yfed gwydraid *extra* o *grog*, cyn myned i'r gwely. Aeth at y meddyg, yr hwn a roddodd *opium* a *laudanum*; ond er gwaethaf *exercise* a *grog*, a *laudanum* ac *opium*, nid oedd yn cysgu yn dda. O'r diwedd aeth at Tom y garddwr.

Yn awr, yr oedd Tom yn ddyn â chryn dipyn yn ei ben; yr oedd hefyd yn ddyn gonest a chywir. Yr oedd yn gwybod hefyd nad oedd nemawr o ofn Duw yn nghalon ei feistr; ei fod yn annghyfiawn ac yn greulawn, yn draws i'r weddw a'r amddifad, a bod ei gydwybod yn ei flino; ac felly dywedodd wrtho fod Wil y Gof, ar odre'r tir, yn cysgu yn dda bob amser, ond ei fod feallai yn gwisgo ei ben mewn gwahanol fath o gap-nos. Camddeallodd y Scweier feddwl Tom; aeth ag un o'i gapanau goreu yn ei boced i'w newid am eiddo Wil y Gof, yr hwn a fynodd wedi ei olchi a'i *airo* yn dda. Pan aeth hi'n nos, aeth i'r gwely yn llawn yspryd da, ac yn gobeithio cael noson gyssurus o gysgu; ond na, er dodi'r capan ar ei ben yn mhob ffordd, a gosod ei hunan yn mhob dull, nid oedd dim gorphwys i Scweier Jones wedi'r cwbl. Cynted cododd yr haul, brysiodd at fwthyn Wil y Gof ar odre'r tir, i gael clywed sut oedd Wil wedi cysgu. Attebodd Wil na chysgodd ef ddim yn well erioed, ac yr oedd yn llawen iawn o'i gapan newydd. Yn flin ac yn ofidus iawn, aeth y Scweier wedi hyny at Tom i adrodd yr aflwyddiant oedd wedi canlyn ei gynllun o fenthyca capan Wil y Gof. "Nis gall fod mae yn nghapan Wil y mae y rhinwedd" ebe fe, "canys darfu iddo wisgo un o fy nghapanau i, ac mae'n dywedyd na fu

ganddo ddim capan mwy cyssurus erioed yn ei fywyd." "Ah, syr," ebe Tom, gan siglo ei ben yn arwyddocaol iawn, a'i bwys ar ben ei bâl, "ond y mae'n sicr genyf, ei fod yn gwisgo capan arall, heblaw yr un a roddodd i chwi,—capan *cydwybod dawel;* ac y mae'r hwn a wisgo hwnw yn sicr o gysgu yn dda, gwisged pa gapan arall a fyno."

M.

HAELIONI YN EI BERTHYNAS A'R WEINIDOGAETH.

Traddodwyd y sylwadau canlynol o'r gadair yn Nghynnadledd Cymmanfa Morganwg, Gorphenaf 16eg, 1873, gan T. Williams, Ysw., Goetre, Merthyr Tydfil.

Yr oeddych oll mae yn debyg yn dysgwyl i mi ddyweyd rhywbeth am arian, oblegyd yr ydym ni, fel diaconiaid, wedi ein gosod ar hyn o orchwyl. Dywedai y diweddar Barchedig Moses Ellis, Mynyddislwyn, mai "*arolygwyr y geiniog* oedd y diaconiaid." Ni raid i mi ddyweyd wrthych fod cynnydd mawr wedi bod yn haelioni yr eglwysi yn ystod y pum' mlynedd ar hugain diweddaf—cynnydd mwy o bossibl nag a wnaed mewn un gras arall. Nid wyf yn dyweyd fod y cynnydd wedi bod yn gyfartal i gynnydd ein treuliau arnom ein hunain, ac ar ein moethau; ond y mae cynnydd mawr wedi bod; ac ni theimlir mwy oddiwrth faich o ddwy fil o bunnau yn awr nag a deimlid y pryd hyny oddiwrth bum' cant o ddyled. Ond y mae yn ddrwg genyf ychwanegu nad yw cynnaliaeth y weinidogaeth yn ein plith wedi cael ei rhan deg o'r cynnydd yna. Mae yn wir fod cynnydd mawr wedi bod, a bod gwahaniaeth anarferol yn y swm a delir gan rai eglwysi i weinidogion yn awr rhagor nâ'r hyn a delid yn nghof cyntaf rhai o honom. Pum' punt y mis a ystyrid yn swm mawr gan eglwysi lluosocaf Morganwg y pryd hwnw, a phan y magodd rhai o honynt galon i godi i saith punt y mis, yr oeddent yn tybied eu bod yn gwneyd gwrhydri. Mae erbyn hyn wedi symmud yn mlaen yn mhell o'r fan yna; ond y mae gan yr eglwysi sydd yn gwneyd fwyaf, le etto i gyfyned rhagddynt. Mae treuliau gweinidogion wedi cynnyddu yn llawer cyflymach nâ'u cyflogau, ac yn y drudaniaeth presenol ar bob peth y mae yn anmhossibl iddynt fyw yn y cylch y dysgwylir iddynt droi ynddo, heb i'r eglwysi ddarparu yn llawer helaethach ar eu cyfer. Ni byddai yn weddus iddynt hwy sefyll allan am bris, ac nid ymddengys fod tuedd ynddynt i wneyd hyny. Fel dosparth, hwyrach y byddai yn anhawdd cael neb yn fwy tawel a goddefgar yn ngwyneb bychander eu cyflogau nâ'n gweinidogion. Dichon eu bod weithiau yn cwyno wrth eu gilydd, ac ambell awgrymiad achlysurol yn cael ei dafiu allan i'r cyhoedd; ond fel rheol y mae ein gweinidogion wedi cadw eu hawliau eu hunain yn y cysgod. Yr wyf yn dyweyd *eu hawliau*, oblegyd fy mod yn cashau â chas cyflawn yr hen syniad iselwael hwnw mai elusen ydyw cyfranu at gynnaliaeth y weinidogaeth. Credwyf fod gan y gweinidog hawl i'w gyflog fel pob dyn arall, ac am hyny nid wyf yn hoffi yr ymadrodd *cynnaliaeth y weinidogaeth*, er fy mod yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. A siarad yn briodol nid wyf yn gweled paham y dylem ddyweyd ein bod yn cyfranu at gynnaliaeth y weinidogaeth wrth dalu y gweinidog, mwy na dyweyd ein bod yn cyfranu at gynnaliaeth y meddyg neu'r cyfreithiwr, pan yn ei dalu am ei wasanaeth. Tueddir fi i feddwl mae i oddefgarwch gweinidogion y mae priodoli paham nad yw haelioni at y weinidogaeth wedi

cynnyddu gyda'r un cyflymder a haelioni at bethau ereill. Mewn talu dyledion capeli a chynnaliad ein sefydliadau cyhoeddus, y mae ein gweinidogion yn dwyn y mater gerbron, ac yn ei gymhell gyda hyawdledd ar yr eglwysi, fel y mae yr eglwysi yn ymhelaethu mewn haelioni, ond anaml y mae cynnaliaeth y weinidogaeth yn cael sylw, fel y mae yn ein heglwysi luaws mawr heb ganddynt un amcan pa faint i gyfranu. Dylai y diaconiaid gymmeryd y mater yma i fyny a'i siarad yn ddifrifol yn yr eglwysi, a chynllunio mesurau pa fodd i chwyddo y casgliadau a chael gan bob aelod o'r eglwys gyfranu. Ni ddylai neb gael ei ystyried yn rhy dlawd, er ei fod o bossibl yn derbyn cymhorth arianol o'r eglwys, ni ddylai y gynnaliaeth hono fod mor brin ac i amddifadu y derbynydd o feddu yr anrhydedd a'r fraint o gael rhoi ei gyfran at gynnaliaeth y weinidogaeth.

Mewn ambell i eglwys mae y penteulu yn rhoddi ei gyfran drosto ei hun, ei wraig, a'r plant sydd yn grefyddol—yr ydwyf yn ystyried hyn yn hollol o le. Dylai enw pob un o'r teulu sydd yn grefyddol fod ar lyfr yr eglwys, a'i gyfran ar ei gyfer. I'm meddwl i byddai yr un mor rhesymol i'r penteulu broffesu gweddio, canu, ac addoli dros y gweddill o'r teulu, a chyfranu. Dylid gweithredu wrth gynllun, a dyledswydd y diaconiaid ydyw tori allan y mesurau mwyaf ymarferol er cario allan amgylchiadau tymhorol yr eglwys, ond yn arbenigol casglu a thalu allan arian y weinidogaeth, a hyny y cyfleusdra cyntaf wedi derbyn yr arian. Mae hon yn swydd arbenigol iddynt, a dylai y diaconiaid gyflawnu hon yn ffyddlon, neu droi o'r neilldu er rhoddi lle i ereill a'i cyflawno. Ni ddylai yr un dyn fod mewn swydd yn yr eglwys os nad ydyw yn barod i ymgyssegru iddi. Mae mwy nâ hanner y pryder a'r diffyg arianol sydd yn ein heglwysi i'w briodoli i ddiofalwch a diffyg trefnusrwydd yn ein diaconiaid. "Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn."

Mae *rate* ein cyfraniadau at y weinidog aeth lawer yn rhy isel. Gellid yn hwdd ei ddyblu yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Yr wyf yn meddwl y byddai yn dda i'r holl eglwysi fabwysiadu y cynllun o gyhoeddi adroddiad blynyddol o'u gweithrediadau. Mae y rhai sydd wedi gwneyd y prawf yn ei gael yn ateb yn dda. Bydd gwrthwynebiad gan rai ar y dechreu mae yn dra thebyg, ond gyda phwyll a gofal gellir ei weithio i mewn yn raddol. Dylid cael rhyw lwybr i fyned ar ol y rhai sydd yn esgeuluso, oblegyd y mae allan o reswm fod rhai yn cael mwynhau yr holl freintiau, ac mewn gallu, etto heb wneyd ond y nesaf peth i ddim at gynnaliaeth gweinidogaeth y Gair. Yr wyf yn llawenhau yn fawr wrth weled y capeli newyddion hardd yn cael eu codi, a'r ymdrechion canmoladwy a wneir i dalu am danynt, ond yr wyf bron a chredu fod ar y mwyaf o arian yr enwad, ac arian pob enwad o ran hyny, yn cael eu rhoddi mewn coed a cherig; ac nad yw y swm a gyfrenir at gynal gweinidogaeth yr Efengyl yn y capeli ddim yn deilwng o'r arian a wariwyd arnynt. Os oedd yr eglwysi gododd y capeli gwychion mewn amgylchiadau oedd yn eu cyfreithloni i fyned i'r fath draul, pob peth yn dda; ond nid yw yn dêg fod cyflogau eu gweinidogion yn cael eu prinhau tra y byddant hwy yn ymdrechu i dalu y llogau a dileu corff y ddyled.

Mae perygl i godi capeli fyned yn *mania* mewn gwlad, ac i bobl fyned i feddwl fod crefydd yn bodoli er mwyn codi capeli, fel *Building Society* er mwyn adeiladu tai. Ni bydd capeli ein gwlad byth yn rhy hardd i'm boddhau i, er fod y defnyddiol bob amser yn werthfawrocach yn fy ngolwg na'r addurniadol, etto nid wyf am i draul ein capeli feichio yr eglwysi i'r fath raddau nes gwasgu ar amgylchiadau y rhai sydd yn eu plith yn "poeni yn y gair a'r athrawiaeth." Yr wyf yn meddwl hefyd y dylai yr eglwysi wneyd eu goreu er gosod eu gweinidogion yn gyssurus eu hamgylchiadau, fel na byddo yn brofedigaeth iddynt i droi at ddim arall er eu helpu i fyw. Mae gan gynnaliaeth ddylanwad wrth reswm ar weinidogion fel ar ddynion ereill, ac

wrth weled eu plant yn lluosogi o'u cylch y maent yn teimlo pryder yn nghylch y bwyd a dderfydd; ac o dan yr amgylchiadau hyny y maent yn barod i wneyd rhyw beth a gynnorthwya y weinidogaeth i'w cynnal. Nid wyf yn eu beio am hyny, y mae yn angenrheidiol iddynt o dan yr amgylchiadau; ond nis gallant wneyd hyny heb dynu oddiwrth eu llafur cartrefol. Clywais lawer o weinidogion yn dyweyd y gall-asant wneyd llawer mwy pe cawsent gyflwyno eu holl amser a'u meddwl i'w llafur cartrefol; ond nis gallant wneyd hyny, tra nad ydyw yr eglwysi dan eu gofal yn gwneyd digon iddynt i osod eu meddyliau yn ddibryder yn nghylch eu hamgylch-iadau, a hyd nes y gosodo yr eglwysi hwy ar dir y gallont deimlo felly, nid oes ganddynt le i'w beio am sugno tipyn o help o ffynnonau ereill. * * *

Byddai yn rhyw galondid i weinidog i lafurio gyda *Bible Class* neu *Band of Hope*, ac mewn ymweliadau gweinidogaethol, pe gwelai fod yr eglwys yn gwerthfawrogi ei lafur, trwy gyfranu yn helaethach at ei gynnaliaeth. Peth dymunol iawn i ddyn ydyw cael ei gammol ei fod yn fugail gofalus ac yn bregethwr rhagorol, ond nid yw hyny yn gwneyd dim tuag at roddi esgidiau am draed a chapiau am benau ei blant.

Yr wyf yn dyweyd yn glir ac yn gryf am mai nid fy achos fy hun wyf yn ei ddadleu, ond achos dosparth o ddynion sydd wedi gwneyd gwasanaeth amnhrisiadwy i'n gwlad ni, a hyny am gydnabyddiaeth fechan mewn cymhariaeth i'w llafur a'u talent. Nid oes yr un wlad wedi cael cystal gweinidogaeth a Chymru am bris mor isel. Mae talent Cymru wedi bod yn y pwlpud, ac er nad wyf yn meddwl y gellir ei pharhau trwy arian, etto gellir ei phechu o'n plith trwy gau ein llaw oddiwrthi. Maent yn Genadon dros Grist, gan hyny perchwn hwynt er mwyn eu gwaith, trwy weddio drostynt, siarad yn barchus am danynt, a'u cynnal yn anrhydeddus.

Mae y fath gyfleusdra yn ymagor o flaen gweinidogion talentog fel y mae perygl i ni eu colli oddieithr i ni ddihuno ati yn y peth hwn. Ai tybed na ellid cael gan ein heglwysi ar unwaith godi 25p. y 100p. yn nghyflogau ein gweinidogion. Nid wyf yn dyweyd y byddai hyny yn ddigon, ond pe gellid gwneyd hyny i ddechreu, byddai yn gam yn yr iawn gyfeiriad, ac ni byddai ond y peth hawddaf yn y byd i'w wneyd. Ni byddai ond tair ceiniog o godiad am bob swllt, ond er na byddai ond ychydig i bob un, byddai y peth o'i wneyd yn siriolded ar gannoedd o aelwydydd ein gwlad, ac yn esmwythder i lawer mynwes sydd yn drwmlwythog gan bryder. Pwy gymmer yr awgrym i fyny? a pha fodd y gellir ei gario allan? Mae genyf berffaith hyder yn yr eglwysi y gwneir ef ganddynt, ond i'r peth gael ei osod yn glir ac yn deg o'u blaen.

Yr wyf etto yn appelio at fy nghyd ddiaconiaid i gymmeryd y mater i fyny o ddifrif, a chymell ereill i wneyd; gadewch i ni fod yn esiampl iddynt yn y peth hwn.

Cymmerais fy rhyddid i draethu fy meddwl ar y mater, am fy mod yn gwybod ei fod yn gwestiwn na theimlasai yr un o'r gweinidogion, hwyrach, mor rhydd i gyf-eirio ato; ac nid wyf yn cymhell ar ereill ddim ond y peth yr wyf yn barod i'w wneyd fy hunan. Yr wyf bob amser wedi bod ar y telerau goreu a'r gweinidogion y cefais y fraint o fod mewn cyssylltiad a'u heglwysi; ac yr wyf yn myned i deimlo yn gryfach o ddydd i ddydd nad wyf i fyw i mi fy hun, oud fod gan grefydd hawl arnaf ac ar bob peth a feddaf. Nid ydym oll ond goruchwylwyr, ac y mae y diwrnod yn yr ymyl pryd y dywedir wrth bob un o honom, "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth, canys ni elli fod mwy yn oruchwyliwr." Disgwylir mewn goruchwyliwr ei gael yn ffyddlon, fel pa un bynag ai un, ai dwy, ai pump talent a ymddiriedwyd iddo, y dywedir wrtho gan ei Arglwydd pan ddychwelo, "Da was, da a ffyddlon, buost ffyddlon ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

Nodiadau Gwleidyddol.

Mae'r awyrgylch wleidyddol yn parhau yn dra thywyll mewn rhagor nag un cyfeiriad. Am Ffrainc ac Yspaen, dywed Mr. Punch yn ei ffordd ddifyr ei hun:

'Twixt two Latin Races small difference is plain;
There's fusion in France, and confusion in Spain.

Mae sefyllfa pethau yn yr Yspaen yn anhapus i'r eithaf, lladd ac ymladd yw *order* y dydd. Nid yw yn gwbl cynddrwg yn Ffrainc etto; ond ofnir ei bod yn addfedu i hyny yn gyflym. Mae'r gwahanol bleidiau yn gryf iawn, ac yn hynod ddrwgdybus o'r naill y llall. Y breninwyr sydd à'r llaw flaenaf yn bresenol. Mae'r Count de Chambord a'i gefnder y Count de Paris wedi dyfod i fath o ddealldwriaeth a'u gilydd; y Count de Chambord (yr hwn sydd yn hen ac heb ddim plant) i lywodraethu dros ei fywyd dan yr enw Henri V., a'i gefnder i fod yn olynydd iddo. Nid oes yma ddim o'r teimlad goreu wedi'r cwbl, fodd bynag, a gall y tipyn lleiaf daflu'r oll i annhrefn. Mae rhyw ymryson eisoes yn nghylch y faner (*flag*). Elfenau anhawdd iawn i'w cadw gyda'u gilydd sydd yn Ffrainc. Gallwn benderfynu nad yw'r Napoleonwyr nà'r Gwerinwyr ddim yn cysgu. Mae'r Pab newydd anfon ei lythyr i fendithio'r Ffrancod. Faint o werth yw bendith y Pab wys? Mae'r elfen babyddol yn peri cryn dipyn o drafferth tua Germany yn bresenol. Bywyd neu farwolaeth yw hi gyda Phabyddiaeth yn mhob man. Mae'n gwneuthur ymdrech am fywyd yn Lloegr, ac y mae'n amlwg yn bywiocau. Tybia rhai fod dealldwriaeth dirgel rhwng y defodwyr yn Eglwys Loegr a'r Pab.

Mae'r Senedd wedi ei ohirio, a'r A. S.—ynod (chwedl Kilsby), wedi dechreu lladd y gieir cochion. Mae'r weinyddiaeth wedi bod mewn twymyn etto. Math o *death struggle* yw hi gyda Gladstone hefyd. Mae wedi goroesi ei boblogrwydd. Ni ellir cael llawer o ddaioni o hono yn rhagor, heb gael newid ar ei *policy*. Tybia rhai fod arwyddion hyny yn newisiad John Bright yn aelod o'r weinyddiaeth, ond y mae ereill yn dal yr un mor gryf fod Gladstone a Bright fel *orange* wedi ei sugno, eu gwaith drosodd, a'u dydd ar ben. Amser a ddengys. Nid oes un seren arall wedi ymddangos etto yn y ffurfafen i daflu Gladstone i'r cysgod. Eglwyswr wrth gwrs yw Gladstone, ac eglwysig yn ei holl yspryd. Ni chydnebydd efe fodolaeth annghydffurfiaeth os gall beidio. Darllener ei araeth yn Eisteddfod y Wyddgrug—Eglwysig o'r big i'r bon. Mae llawer o ddarogan am lecsiwn etto 'nawr. Doeth fydd bod yn barod. Mae'r Toryaid yn ennill yn

bur fynych. Awgryma rhai fod a fyno dylanwad y brag a'r hopys á hyny, a bod gwyr y deml yn chwareu i'w dwylaw, Ai possibl? "Y dwthwn hwnw," &c.

GWYLIEDYDD.

Marwgofion.

Griffith, baban Mr. a Mrs. Thomas, Marblestone Hall, Llandyssil, diweddar o Benybont, Morganwg, a fu farw ar y 1af o Ebrill, 1873, yn 8 mis oed. Claddwyd ef y Mercher canlynol yn Pantydefaid. Cyflawnwyd y gwasanaeth gan y Parch. T. T.

Mai 26, Thomas Morgans, mab Evan a Mary Morgans, 8, Union Street, Trecynon, yn 46 oed. Bu yn dyoddef oddiwrth effeithiau chwydd gwyn yn ei glin am hir amser, ac aeth i Glafdŷ Abertawy, gan obeithio cael adferiad; ond yn mhen 5 mis, efe a ymadawodd â'r fuchedd hon. Bu yn aelod ffyddlon yn yr Hen-Dy-Cwrdd am flynyddau lawer. Ar y 29ain, hebryngwyd ei weddillion marwol i'r gladdfa newydd yn Aberdar, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. William James, B.A.

Mehefin 5ed, yn 45 oed, Anne, gwraig D. Rowland, Collier, Gadlys Street, Aberdar. Bu farw o'r *inflammation*. Yr oedd yn aelod yn Bethel.

John Thomas, Criborfawr, Llandyssil, a fu farw ar y 7fed o Orphenaf, 1873, yn 80 oed. Claddwyd ef y Iau canlynol yn Pantydefaid. Pregethodd y Parch. John Davies, Alltyplaca.

Gorph. 15, yn Nghwmneol, Aberdar. David Rees, yn 48 oed. Yn y ty, darllenwyd gan y Parch. T. Lloyd, Nottage. Yn yr Hen-Dy-Cwrdd, deehreuodd Eiddil Cynon, a phregethodd Mr. Lloyd, Nottage, yn wresog ac yn foddhaol iawn. Claddwyd yn y *Cemetery*.

John Thomas, 'Stafell, gynt o Gwmarch, Llandyssil, a fu farw ar yr 18fed o Orphenaf, 1873, yn 75 oed. Claddwyd ef y Llun canlynol yn Pantydefaid. Y Parch. D. Evans, B.A., Caeronen, a weinyddodd ar yr achlysur.

Jno. Thomas, Penbont Llawrcwrt, Llandyssiliogogo, a fu farw Awst y 1af, 1873, yn 26 oed. Claddwyd yr ymadawedig Awst y 5ed, yn Pantydefaid. Y gwasanaeth arferol yn y capel, a gyflawnwyd gan y Parch. T. Thomas.

David Thomas, baban, ac unig fab Mr. a Mrs. Jones, Tyssil Castle, Llandyssil, a fu farw Awst y 7fed, 1873, yn 5 mis oed. Claddwyd ef y Sadwrn canlynol yn nghladdfa'r tylwyth yn Pantydefaid. Gweinyddodd y Parch. T. Thomas.

Hanesion.

ABERDAR.—Cafwyd Gwyl De ardderchog yn yr Hen Dy Cwrdd, Gorph. 24. Cyfranogwyd o'r wledd ddanteithiol gan liaws mawr. Cafwyd *Concert* llwyddianus iawn yn yr hwyr. Wedi diolch i'r Cadeirydd, R. Bedlington, Ysw., am ei wasanaeth, ac i'r boneddigesau am addurno'r Capel mor hardd, &c., &c., aeth pawb adre wedi eu llwyr foddhau. D.

Y CYFARFOD BLYNYDDOL.

CYFARFOD blynyddol Undodiaid y Deheubarth a gynnaliwyd eleni yn Pantydefaid, Llandyssil, Ceredigion, dydd Mercher a dydd Iau, Mehefin y 25 a'r 26. Dechreu-

wyd y cyfarfod prydnawn dydd Mercher, gan y Parch. Wm. Rees, Rhydygwin, a phregethwyd gan y Parch. W. James, B.A. Aberdar, â'r Parch. E.W. Lloyd, Cwmbach. Dranoeth am 10 dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Dd. Evans, Caeronen, a phregethwyd gan y Parch. Mr. George, Aberdar, yn Saesoneg, a'r Parch. Mr. Evans Gellionen, yn Gymraeg. Yna y cafwyd *conference* pryd y llefarwyd ar y pwnc penodedig, sef "sylfaen cymeradwyaeth dyn ger bron Duw," gan Mr. Phillips, o St. Clears, y Parch. Jno. Davies, Alltyplaca, y Parch. E.W. Lloyd, Cwmbach, y Parch. Mr. George Aberdar, y Parch. David Griffiths (Annibynwr), mab y diweddar Mr. Griffiths o Horeb, y Parch. Jno. Davies, Ebenezer, Llandyssil (B), y Parch. Evan Humphreys, o'r America, Mr. Jenkin Jones, gynt o Brollebryn, â'r Parch. D. L. Evans, o Goleg Caerfyrddin. Pregethwyd drachefn yn y prydnawn gan y Parchn. E. Humphreys, D. L. Evans, a Titus Lloyd, o'r Nottage. Cafwyd hin rhagorol a chyfarfodydd cyfatebol. Bydd y cyfarfod chwarterol nesaf yn Cefncoedcymer. Y Pregethwr,—y Parch. Wm. Rees. Bydd cyfarfod' blynyddol 1874, i gael ei gynal yn Rhydygwin. Y Pregethwr apwyntiedig yw y Parch. W. James, B.A.

Cwmbach.—Prydnawn dydd Mercher, y 30ain o Orphenaf, cafodd plant ysgol Sul y Cwmbach eu gwyl dê flynyddol yn Cefnpenar Uchaf, lle y dangoswyd caredigrwydd mawr iddynt gan Mr. a Mrs. Thomas a'u dwy ferch, y rhai a wnaethant yr oll a allent i wneyd y rhai bychain ac ereill mor gyssurus âg oedd bossibl yn ngwyneb fod y prydnawn dipyn yn wlyb. Gwasanaethwyd wrth y byrddau gan Mrs. Morgan, Abernantygroes; Mrs. Lloyd, Brynhyfryd; Miss Thomas, Duffryn Arms; a Mrs. Davies, Phillip's Row. Gallem feddwl i bawb gael eu llwyr foddloni yn y darpariadau a wnawd ar eu cyfer. Wedi i'r plant ac ereill (o gylch 90) dreulio yn agos i dair awr ar y maes i ymddifyru gyda'u gwahanol gampiau, dychwelasant adref yn ysgafn galon, a chlywsom lawer yn dywedyd y carent fwynhau cyffelyb fwyniant yn mhen blwyddyn etto.

Congl yr Holiedydd.

(1.) ACROSTIC YSGRYTHYROL.

Eilun-addolwr, yr hwn a huriodd Lefiad i fod yn offeiriad iddo.

1. Enghraifft o ddyn llariaidd.

2. Y defnydd â'r hwn y gwnaed gorseddfainc y Deml.

3. Canwriad Rhufeinig ar yr hwn y syrthiodd yr Yspryd Glân.

4. Dyffryn lle cyflawnwyd gwyrth ryfeddol.

5. Mynydd ar yr hwn y bu farw offeiriad.

(2.) TRAWSOSODIAD PENNILL PEDAIG LLINELL WYTH SILL.

Ohfy en aida tar glwyddi onllem aeym auif ywcy mwy sagyned dfaugw anab odheb gwaeatd edwydd wc hhyf ryd.—F.T.

[Yn gyntaf chwilier y geiriau allan, ac yna trefner.]

(3.) Paham y dywedir nad yw teiliwr ond y nawfed ran o ddyn?—J. M. H.

(4.) Paham nad yw poced *rule* saer a meiswn yr un ochr? Saer Maen.

(5.) Yn ol awgrymiad Dr. N. Carne yn Eisteddfod Llantrisant, Awst 14, y mae cysylltiad rhwng y Gilgal yr aeth Samuel iddo, a Gorsedd beirdd Cymru. A oes sylfaen i'r awgrymiad? M. M.

(6.) Dywedodd Mr. Gladsone yn Eisteddfod y Wyddgrug, Awst 19, fod gan y Cymry gyfieithiad o'r Bibl yn hir cyn bod gan y Saeson un. Ai gwir hyn? Yr oeddwn i wedi arfer meddwl ffordd arall. P. J.

ATEBION.

1. *Rhifyn Mai, tudal* 70. (Marc i. 35)—Ystyr yn *blygeiniol* yw, yn foreu iawn, ar doriad y wawr, ar ganiad y ceiliog. Plygain, Plu—cân, yr amser mae'r cor asgellog yn tori allan i ganu. (Cf. Lat. *pluma cano.*) Ffurf arall o'r gair yw pylgain, pylgain a gosper, hyny yw "matin and vesper," y boreuol a'r hwyrol weddi. Cedwir pylgain yn rhai manau i wylied dyfodiad y flwyddyn newydd i mewn.—U.

(Yr Acrostic Ysgrythyrol, tud. 129.)

Naturiaethwr—Solomon (1 Bren. iv. 33.)

1. S areser (Esa. xxxvii. 38.)
2. O nesimus (Philem. 10. 12.)
3. L uz (Gen. xxviii. 19.)
4. O g (Deut. iii. 11.)
5. M nason (Act. xxi. 16.)
6. O thniel (Barn. iii. 9.)
7. N ehustan (2 Brenh. xviii. 4.)

RAHEL.

CYWEIRIAD YR ENGLYN, Tud. 120.

Y Sul, elai Paul a Silas,—ill dau'n
Mhell o dwrf y ddinas,
I weddi—fangre addas,
Ar lan afon lydan, las.—*Islwyn.*

[Atebion oddiwrth James Evans, Gwarnant, Cynonwyson.]

Gohebiaethau.

Dear Sir

yr wyf yn encloso r Stamps am yr ymofynydd gwelais y gwaif hyny y tro, well, nawr Dyn yn caru pethau y byd A Dyn yn caru Duw yn awr pwy wahaniaeth sydd Rhwng y ddau Duw bia y cyfan oll i gid y nefoedd ar ddaear

ffugenw iw J D Brynyreithin

Mr golygydd os gwelwch hyn o linellau yn addas i ymddangos yn yr ymofynydd ydwyf yn giwir unitarian

[Mae'n hyfrydwch genym roddi lle i'r llythyr hwn yn yr YMOFYNYDD fel ag y mae, gan ei fod yn fyr. Nid ydym yn proffesu ei ddeall, ond cymaint o hono ag sydd yn cyfeirio at y *stamps*. Carem i rai ereill o'n darllenwyr hefyd ddeall pwnc y *stamps* yma.—GOL].

CYNNORTHWY Y PWLPUD.

SYR,—Yn eich rhifyn diweddaf mae "Carwr Llwyddiant" yn lled awgrymu na thâl hi ddim i siarad am Ledaeniad Egwyddorion Undodaidd yn Nghymru os na cheir mwy o weinidogion i lanw ein pwlpudau. Mae eisiau mwy o bregethwyr, mae'n wir; ond y mae peth arall yn eisiau hefyd, sef i fod pob un ag sydd yn galwei hun yn Undodwr yn byw ei egwyddorion allan yn ei fywyd, fel y gweler ein gweithredoedd da ni, ac y delo dynion i weled mai peth i ymarfer âg ef bob dydd o'n bywyd yw crefydd, ac nid peth i'w ddysgwyl trwy fod rhywun arall yn llafurio trosom. Cofied Carwr Llwyddiant fod gan bob un ei bwlpud neu blatform bach ar yr aelwyd gartref, lle y gall ledaenu rhai o egwyddorion Undodiaeth. Mae Undodiaeth wedi cael ei chyhoeddi heb yr un pwlpud na phlatform; ac yr wyf yn credu pe tynid hwy i'r llawr, y cadwai Undodiaeth i'r lan am fod ei tharddiad o Dduw.

UN O FERCHED Y LLWYN.

Darnau Byrion.

MARWOLAETHAU.—Mae'n marw ar y ddaear bob blwyddyn, 333,333,333 o bersonau; hyny yw, tua 91,554 bob dydd, 3,730 bob awr, 62 bob mynyd. Mae pob curiad o'r galon yn nodi marwolaeth un person.

Bwydydd. Rhenir hwy i'r rhai sydd yn gwresogi'r corff, a'r rhai sydd yn ffurfio cnawd, neu yn adeiladu'r corff; *Body-warmers and Flesh-formers.* Mae amrywiaeth bwyd yn well gan hyny na bwyd o un math tuag at sicrhau a chadw iechyd Adeiladu'r corff y mae bwyd haidd a gwenith a cheirch, a'r un peth wna cig eidion a chig gwedder *(mutton)*, y *fats* sydd yn gwresogi. Nid oes dim meithriniaeth mewn *fats.* Felly mae natur yn gofyn cymysgu y ddau. Dyna pam yr ydym yn bwyta

Bara gyda Chaws, | Bara gyda Ymenyn,
Bara gyda Llaeth, | Bara gyda Chig.

Ychydig *fat* sydd mewn ffowlin, felly cymmerwn facwn gyda ef. Ychydig *fat* sydd mewn cig llo, am hyny cymerwn ham. Mae'r halen wedi tynu'r *juices* a'r *ashes* allan o'r cig hallt, dyna pam y cymmerir *cabbage* a bacwn, neu datws a bacwn gyda'u gilydd. Ni ddylid cymmeryd un math o fwyd yn boeth. Arfer niweidiol iawn sydd gan rai i yfed cawl o'r berw, a the o'r berw. Tueddant i wanychu nerth yr ystymog.

PA BETH A FWYTAWN, A PHA BETH A YFWN?

CORFF-WRESOGWYR.

Anifeilaidd.	Llysieuaidd.
Ymenyn	Sugar
Dripping	Triagl
Siwet	Starch yr hwn a gair mewn Bara, a phob math o lysiau.
Oil	
Lard	

Nychai dyn pe ceisiai fyw ar y rhai hyn yn unig.

CNAWD-WNEUTHURWYR.

Anifeilaidd.	Llysieuaidd.
Cig	Blawd gwenith
Pysgod	Blawd ceirch
Game	Reis
Wyau	Pys
Caws	Haidd, &c.

Pe byddai dyn byw ar y rhai hyn yn unig, byddai mewn perygl oddiwrth y *scurvy* a chlefydau'r croen.

D. S. Dwfr yw'r peth yfed mwyaf hyfryd a mwyaf diogel yn natur.

Darllen.—Mae'r Chineaid yn darllen mewn colofnau o war y ddalen i'r gwaelod ac yn dechreu ar yr ochr ddeheu i'r golofn. Darllenir Hebraeg ac Arabaeg o'r dê i'r aswy. Mae rhai hen ysgrifau Groeg yn troi ar ddiwedd llinell, a'r llinellau ar yn ail o'r de i'r aswy, o'r aswy i'r de. Mae trigolion Europ yn darllen o'r aswy i'r de.

Ymddygiad yr Ieuanc.—Gwna'r llwybr o ymddygiad a ddewisir yn ystod y pum' mlynedd, o bymtheg i ugain, bron yn ddieithriad benderfynu cymmeriad bachgen dros ei fywyd. Megys ag y mae y pryd hwnw—yn ofalus neu ddiofal, yn ddoeth neu yn annoeth, yn ddiwyd neu yn ddioglyd, yn eirwir neu yn dwyllodrus, yn ddeallus neu yn anwybodus, yn gymmedrol neu yn afradlon,—felly y bydd yn y blynyddau dilynol, ac nid yw yn gofyn proffwyd i fwrw ei *horoscope*, neu gyfrif ei *chances* mewn bywyd.

Yr Hen Gant.—Mae'r Parch W. H. Havergal, wedi olrhain yr hen dôn yma i *Psalter* Geneva, tua 1543, ac i D. Franc fel awdwr.

Y Beibl.—Yn ystod y ganrif bresenol, yr ydys wedi dosparthu 116 o filiynau o gopiau o'r Beibl, yn rhanol neu yn gyfan, yn ngwahanol barthau'r byd. Mae cyfieithiadau o hono wedi eu gwneuthur i 257 o ieithoedd. Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, dosparthwyd yn Rwsia (maes newydd) 331,000 o gopiau mewn triugain o wahanol ieithoedd.

"Rhoddwch i mi fan sefyll," ebe Archimedes, "y tu allan i'r byd, a dyrchafaf ef oddiar ei echelau." Gwir Crist'nogaeth yw'r man y tu allan i'r byd. Mae'n codi y galon ddynol oddiar *bivot* dwbwl hunaniaeth ac anianolrwydd, a rhyw ddiwrnod dyrchafa yr holl fyd o'i lwybr drwg, a phair iddo droi ar echel newydd cyfiawnder a heddwch.—D'Aubigne.

Dewiseb gwraig â'r clustiau, ac nid â'r llygaid.

Calfiniaeth.—"Fod etholedigaeth a gwrthodiad babanod, yn gystal â dynion mewn oed, yn ffaith nis gallwn wadu yn wyneb Duw sydd yn eu caru yn dyner, ac yn eu cashau yn ddifeius cyn iddynt gael eu geni."—*Acta Dordrechtana.*

"Sut mae Duw yn gweithredu tuag at fabanod sydd yn marw heb eu hethol? Mor gynted âg y maent wedi eu hymddwyn yn y groth, maent mewn sefyllfa o farwolaeth, o herwydd pechod Adda a

gyfrifir iddynt, a'r llygredigaeth gwreiddiol sydd yn glynu yn eu natur, yn rhinwedd yr hwn wrth farw y maent yn myned i ddinystr."—*Archesgob Usher.*

"Mae babanod yn haeddu cael eu damnio o herwydd y natur sydd ganddynt."—*Zanchius.*

"Mae miloedd hyd y nod o fabanod Turkiaid a Saraceniaid, ydynt yn marw mewn pechod gwreiddiol, yn cael eu poenydio ganddo Ef yn uffern dan."—*Twisse.* (*Prolocutor Cymanfa Westminster*).

"Beth arall ond ewyllys da Duw yw yr achos fod cwymp Adda yn dedfrydu i farwolaeth dragywyddol ac anfeddyginiaethol genedloedd cyfain yn nghyd â'i babanod."—*Calvin's Institutes.*

A oes neu ai nad oes unrhyw gynnydd wedi cymmeryd lle mewn duwinyddiaeth er pan oedd y *stuff* adgas yma yn gred gyffredinol y bobl. Os oes, mae yn amlwg na ddarfu i'r diwygiad Protestanaidd, ar ol y cwbl, osod diwedd ar feddwl crefyddol.

I.

Barddoniaeth.

EMYN.

Rhoddwyd yr emyn canlynol allan ar ol ei bregeth, gan y Parch. John Davies, Llwyn, yn ordinasiwn Thomas Emlyn Thomas, yn y Cribin, Yr oedd yno dyrfa anarferol fawr,—mor fawr fel y gorfuwyd cynal y gwasanaeth yn yr awyr agored, ac fe gafodd darlleniad yr emyn gan Mr. Davies yn ei lais seinber swynol (yr oedd ei lais mor glir a'r organ), argraff mor ddwfn fel nad yw yn debyg y gwna neb a'i clywodd byth ei annghofio. Bu farw Mr. Thomas, Ebrill 24, 1847, yn 24ain oed. Bu farw Mr. Reuben Davies, Ionawr 8, 1833, yn 25ain oed.

"BYDD BAROD ISRAEL I GYFARFOD A'TH DDUW."—Amos iv. 12.

Dychwel ddyn yn edifeiriol,
Dychwel o dy lwybrau gau;
Dydd y cyfrif, dydd aruthrol,
Dydd y farn sy'n agoshau:
Gwrando lais cenadwr heddwch,
Dos o faglau twyll yn rhydd,
Gad bydewau a thywyllwch
Rhodia yn ngoleuni dydd.

Gad yn llwyr drachwantau pechod,
A'i bleserau o bob rhyw,
Hardd ymdrwsia, bydd yn barod
I gyfarfod â dy Dduw;
Y mae amser yn prysuro
Mewn buander ar ei daith;
Ar ei aden mae'n dy gludo,
Tu a'r tragwyddoldeb maith.

O flaen Lluniwr y mynyddoedd,
O flaen Crewr môr a thir,
O flaen Duw a Thad ysprydoedd,
Rhaid it' sefyll cyn bo hir:
Tra bo ynot nerth a bywyd
Rhodia'n isel gydag Ef,
Fel y caffot drigo'n hyfryd
Ger ei fron yn nef y nef.

Reuben Brydydd y Coed.

CAN GOBAITH.

Mi clywaf ef yn peraidd peraidd ganu,
Isel a thyner ydyw seiniau'r gân;
Ac fel gan Dduw ei hun yn cael ei ddysgu
"Mae'n well ychydig nes yn mlaen."

Y nos a'r dydd mae'n para i ganu'n gyson,
Clywaf yn awr adseiniau'r swynol gan;
Mae'n canu, ac fe'i teimlir gan y galon—
"Mae'n well ychydig nes yn mlaen."

Mae'n eistedd ar y bedd, ac yno'n canu,
A'r galon dyner bron ar dori'n lan;
Yn canu, a'r cysgodau yn tywyllu—
"Mae'n well ychydig nes yn mlaen."

Yn nes yn mlaen? ond Ow pa gymaint, tybed?
Rhifer pob milldir fel yn swn y gan;
Na, dim rhifo, ond *hyderu* ac *ymddiried*
Ei bod yn well yn nes yn mlaen.

R. Johnson.

AT EIN DARLLENWYR.

TALIADAU A DDERBYNIWYD.

D. T,, Pantmeddyg; O. J., Abernant; D. J., Ciliau; T. T., Bwlch; S. H., Cribin; T. G., Penywern; L. W., Gellionen; L. D., Guy's Hospital; T. D., Dolbwba; C. Ayron; E. J., Swyddffynon; J. P., Llanelli; J. D., Llandebie; W. T., Mill Street; D. J. J,, Gyfeillion; R. P., Blaentrafle; T. J., Maesygarn; L. L., Ystrad Foundry; J. D., Ystalyfera.

Anfoner y taliadau mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 47, Gadlys Road, Aberdare." TELERAU.—*Un copy 3c., gyda'r post 3½; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.*

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnelir y Cyfarfod Chwarterol nesaf yn Cefncoedycymer, Mercher a Iau, y 1af a'r 2il o Hydref. Pwnc y Gynnadledd,—"Gwerth a phwysigrwydd Crefydd." Y pregethwr boreu dydd Iau, yw y Parch. W. Rees, Rhydygwin.

BWRDD Y GOLYGYDD.

MEWN LLAW:—Englynion Arwest; Hiraeth am fod yn gerddor; Dinasoedd Hynafol; Y Dyn Crefyddol; Tri Englyn Coffadwriaethol; Bywyd Dyn; Profiad; Y Dyferyn Du.

GWELLIANT GWALLAU.

RHIFYN GORPHENAF.—Tud. 114, ll. 11eg o'r gwaelod, yn lle "seremoniau," darllener "seiniau."

RHIFYN AWST.—Diangodd amryw wallau yn y dyfyniadau o'r Lladin, tudalen 126, ond nid ydynt yn anhawdd i'w cyweirio gan y rhai a'u deallant. Tud. 127, llinell 3ydd, darllener "ymresymiad;" ll. 32, darllener "wasgaru hâd;" ll. 3ydd o'r gwaelod, darllener "gwenyn;" tud. 143, colofn 2, ll. 12 o'r gwaelod, darllener "mor anwybodus a ffol."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig :—*

The Editor of "YR YMOFYNYDD,"

Mount Pleasant Gardens,

Aberdare.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, CARIAD, A GWIRIONEDD.

CYFRES NEWYDD] HYDREF, 1873. [RHIF 8

CYNNWYSIAD.

Rhagom 169
Y Dyferyn Du 175
Pregeth Effeithiol 178
Camddarluniadau o Undodiaeth 179
Pelicanod yn yr Aifft 181
Hydref 182
Joan D' Arc 183
Tafod Enllib 184
Cariad Cristionogol 185
Marwgofion 188
Hanesion 189
Darnau Byrion 189
Barddoniaeth 192

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.